## Llafar Gwlad 2023: Y Tehuelche, brodorion gwreiddiol talaith Chubut gan Twm Elias

Y Tehuelche yw'r grwpiau teuluol o gasglwyr-helwyr crwydrol y daeth y Cymry yn gyfeillgar â nhw pan sefydlwyd y Wladfa ym Mhatagonia. Arferai'r brodorion dreulio'r haf yng nghyffiniau'r Andes cyn dilyn eu llwybrau traddodiadol am oddeutu 350-400 milltir dros anghyfanedd y paith i'r dyffryn a'r arfordir i dreulio'r gaeaf.

Roedd dros flwyddyn ers glaniad y Mimosa yn yn 1865 cyn i'r Cymry ddod ar draws y brodorion. Mawr oedd eu pryder amdanynt cyn hynny oherwydd propaganda'r Sbaenwyr, a fu'n eu herlid ers degawdau i geisio meddiannu eu tiroedd traddodiadol.

Bu cryn ddychryn, felly, pan glywyd y gri: "Mae'r indiaid wedi dod!" Ond er mawr ryddhad, roedd y cyfarfod hwnnw âg un o benaethiaid y brodorion a'i wraig yn heddychlon a chyfeillgar. Ym mhenill olaf ei faled i'r achlysur disgrifiodd RJ Berwyn be ddigwyddodd nesa:

Cyn bo hir daeth llu o Tweltiaid,
A'r Pampas mawr eu sŵn,
A minteioedd o geffylau
A heidiau mawr o gŵn;
Gwerthent gig am dorth o fara,
A cheffylau braf am dair,
Nid oedd neb o'r fintai'n cofio
Y fath gyfnewid mewn un ffair.

Roedd y brodorion wedi gwirioni ar fara'r Cymry ac yn barod i fasnachu ceffylau, crwyn, ponchos o wlan gwanaco a phlu estrys am y torthau blasus. Roeddent yn hapusach yn masnachu gyda'r Cymry am eu bod yn delio'n decach â nhw na'r Sbaenwyr. Tyfodd y fasnach, ac yn ddiweddarach roedd yr CMC (Cwmni Masnachol Camwy) sef co-op y Wladfa, yn allforio plu estrys y Tehuelche yn ogystal â gwenith o'r Dyffryn. Roedd y plu yn ffasiynnol iawn i addurno hetiau merched yn y cyfnod hwnnw ac yn cael pris da.

Ceir stori ddifyr am y cysylltiad cyntaf ar un o'r ffermydd. Teulu o frodorion yn dilyn eu llwybr taddodiadol ac yn dod heibio'r fferm. Y ffermwr yn sefyll yn betrusgar ger y tŷ, ond ei wraig a dorrodd yr ias drwy ddod o'r tŷ â'i babi newydd-anedig yn ei breichiau. Roedd merched y brodorion wedi gwirioni â'r babi gwyn a daethant yn gyfeillion. Byddai'r brodorion, yn aml iawn pan aned plentyn newydd i'r Gwladfawyr, yn dod draw i weld y babi gwyn a chyflwyno anrhegion.

Nid aeth y gwladychu yn dda yn y ddwy flynedd gyntaf, gyda methiant y cnydau. Yn 1867 penderfynwyd rhoi'r gorau iddi a symudodd pawb yn eu holau i Borth Madryn i ddisgwyl llong i'w cludo i wladychfa arall ar dir mwy ffafriol yn y gogledd. Lewis Jones, a chymorth ymarferol gan lywodraeth yr Ariannin a'u perswadiodd i aros blwyddyn arall fel arbrawf. Ymbiliodd rhai o'r brodorion hefyd arnynt i aros gan gynnig cymorth drwy hela gwanacos ar eu rhan a'u dysgu am blanhigion meddyginiaethol. Ymunodd chwech o'r penaethiaid â dirprwyaeth i Buenos Aires i ddatgan cefnogaeth i'r Cymry a phledio am gymorth iddynt.



*Lewis Jones â'r ddirprwyaeth o benaethiaid y Tehuelche aeth i Buenos Aires i bledio achos y Cymry*

Dyma ddychwelyd i'r dyffryn a chanfod bod eraill o'r Tehuelche wedi llosgi eu tai gan ofni y byddai'r Sbaenwyr yn symyd o Dre Rawson i'r tai gweigion a sefydlu canolfan newydd i'w herlid. Ailgodwyd y tai a thrwy lwc ychydig yn ddiweddarach darganfyddwyd y dechneg o agor ffosydd i ddyfrio'r tir. Ni bu son am adael wedyn ac o fewn ychydig flynyddoedd roedd gwenith Dyffryn Camwy yn ennill medalau aur mewn ffeiriau rhyngwladol yng ngogledd America ac Ewrop.

Ceid perthynas dda rhwng y Cymry a'r Tehuelche a sonir am un achlysur, pan gyhaliwyd gwasanaeth yn un o'r ffermydd ar lawr y Dyffryn cyn i Gapel gael ei godi, i griw o 70 o frodorion ymgynnull y tu allan, wedi eu cyfareddu gan harmonïau yr emynau a glywsant.



*Un o’r brodorion yn ei poncho liwgar a chynnes*

Un o straeon enwog Dyffryn Camwy yw honno am Nel fach y bwcs. Plentyn naw oed oedd Nel, a breswyliai ar fferm Llain Las yn ardal Bryn Crwn. Bu farw ei mam, a phan aeth ei thad i ymwneud â threfniadau’r achlysur trist hwnnw, fe rybuddiodd Nel i aros yn y tŷ a pheidio agor y drws i neb. Ychydig yn ddiweddarach daeth criw o frodorion heibio gan alw, “bara, bara, bara”. Yn y diwedd agorodd Nel y drws, ac am y gallai rywfaint o iaith y Tehuelche, esboniodd nad oedd bara am fod ei mam wedi marw. Daeth y pennaeth i lawr oddiar ei geffyl a rhoddodd ei fantell ponsho werthfawr am ysgwyddau’r ferch fach mewn cydymdeimlad. Cynhaliwyd seremoni i alaru am golled y fam, a rhoddodd y pennaeth addewid y byddai’n edrych ar ôl Nel tra byddai byw.



*Eiry Palfrey yn Llain Las gyda phonsho ei mamgu*


Ymhen amser bu i Nel symyd i fyw i Gymru, ac mae'r poncho ym meddiant ei hwyres, Eiry Palfrey. Rai blynyddoedd yn ôl daeth Eiry a chriw ffilmio i'r Wladfa i ailgreu y cyfarfod rhwng Nel fach a'r Tehuelche yn y ffilm 'Poncho mamgu'. Teimlid y dylsai brodorion go iawn gymryd rhan, ond ychydig iawn ohonynt oedd yn dal i ddilyn eu dull traddodiadol o fyw ar y paith erbyn hynny. Ond pan esboniwyd y cefndir i un grŵp ohonynt bu iddynt gytuno. Roeddent wedi gwirionni pan welsent y poncho gwreiddiol a phawb yn eu tro yn cael cyfle i'w gwisgo.

Dioddefodd llwythau brodorol yr Ariannin driniaeth ffiaidd gan luoedd arfog y wladwriaeth yn yr 1880au. Roedd yr awdurdodau am gael gwared ohonynt er mwyn hawlio'u tiroedd yn ystod anghydfod am berchnogaeth rhai o'r ardaloedd ffiniol rhwng yr Ariannin a Chile. Lladdwyd llawer o frodorion a gyrrwyd eraill ymhell o'u cynefin, rhai hydnoed yn ddim llai na chaethweision i'r brifddinas.

Bu i bolisi treisgar y Sbaenwyr arwain at wrthdaro gwaedlyd rhyngthynt â llwyth rhyfelgar y Mapuche ddeuai o gyffiniau'r Andes. Yn 1883, ceisiodd y Mapuche berswadio'r Tehuelche i ymuno â nhw i ymosod ar y gwladfawyr. Gwrthodwyd y cynnig a rhybuddiodd un o benaethiaid y Tehuelche y Cymry o'r bygythiad. Achosodd hyn banic a gosodwyd coelcerthi ar y bryniau yn barod i'w tanio petai ymosodiad. Pan aeth un o'r rhain ar dân drwy anffawd gyda phibell un o'r gwylwyr fe daniwyd y lleill i gyd gan achosi braw mawr yn y dyffryn. Casglwyd ar frys y gwragedd a'r plant i le diogel. Adroddir am un gŵr yn croesi'r afon ger y Gaiman ac yn troi at ei wraig a dweud: "Mae arnai want dy foddi di Jane. Mi fuase hynny'n llawer gwell nag iti ddisgyn i ddwylo'r Indiaid". Nid oes cofnod o'i hymateb hi!

Tawelodd pethau ymhen ychydig wythnosau, ond ni chafwyd perffaith heddwch chwaith, fel y danghosodd yr un gwrthdaro gwaedlyd ac anffodus ddigwyddodd yn hanes y Cymry a'r brodorion, yn Chwefror 1884.

Roedd criw bychan o Gymry wedi mynd i chwilio am aur yn yr Andes, ond bu iddynt sylweddoli bod hon yn fenter beryglus. Roedd dylanwad y Mapuche yn drwm ar y Tehwelchiaid lleol ac roeddent yn barod iawn i ymosod ar unrhyw rai a ystyrient yn Sbaenwyr. Wrth i'r pedwar Cymro farchogaeth gartref i gyfeiriad Dol y Plu, fe ymosodwyd arnynt gan tua dwsin o frodorion a lladdwyd tri ohonynt yn y fan a'r lle. Ond llwyddodd John Daniel Evans i ddianc ar ei geffyl, Malacara, a chael ei erlid gan ei ymosodwyr. Dyma gyrraedd clogwyn bychan a neidiodd Malacara gan lanio mewn tywod bron 20 troedfedd yn is. Gallodd godi a charlamu ymlaen o afael ei erlidwyr.



*Naid Malacara*

Pan gyrhaeddodd John Daniel yn ôl i'r Wladfa codwyd mintai arfog i fynd yn ôl i safle'r gyflafan. Dim ond esgyrn y tri oedd yn weddill, wedi eu glanhau gan fwlturiaid, ac roedd yn amhosib eu hadnabod. Claddwyd y gweddillion gyda'i gilydd a daeth yr ardal i gael ei hadnabod fel Ddyffryn y Merthyron. Pan gynhaliwyd gwasanaeth o gwmpas y bedd, a chanu emynau, dywedir mai dyna pryd y sylweddolodd y brodorion mai Cymry, nid Sbaenwyr, oedd y rhai a laddwyd.

Fel y prinhâi y tir oedd ar gael i'w amaethu yn Nyffryn Camwy, bu i amryw o Gymry, yn enwedig yr ymfudwyr diweddarach, deithio i Gwm Hyfryd yn yr Andes i ffermio ac i sefydlu estancias i fagu defaid a gwartheg. Cefais stori gan y diweddar Fred Green, Trevelin pan oedd yng Nghymru yn y 1980au am deulu brodorol oedd wedi sefydlu am gyfnod ar un o estancias y Cymry. Pan ddaeth milwyr Sbaenaidd heibio gyda'r bwriad o'u gyrru o'r fro, mynnodd y ffermwr iddynt gael llonydd am eu bod o help iddo, meddai, i gadw golwg ar y defaid a'u hamddiffyn rhag y piwma. Gadawyd iddynt, ac ymhen amser daeth rhai yn gauchos ar yr estancias ac i fedru siarad rhywfaint o Gymraeg.



*Teulu brodorol ar y paith, 1902. Y gŵr yng ngwisg gaucho*

Yn raddol, oherwydd erledigaeth ac iselhau'r iaith a'r diwylliant brodorol gan y Sbaenwyr, bu i lawer ohonynt roi'r gorau i'w ffordd draddodiadol o fyw a gwanio yn sylweddol fu hanes eu diwylliant a'u hiaith. Aethent yn bobl swil â'u diwylliant bron yn anweledig. Ond pan ddarganfyddwyd mynwent frodorol ar gopa Bryn y Dorth ger y Gaiman yn 2006, newidiodd pethau yn sylweddol (gweler *Llafar Gwlad* 157, 2022). Bu i'r ymgyrch, a lwyddodd yn 2013, i ddynodi'r bryn yn safle sanctaidd gynyddu hyder y gymuned Tehuelche-Mapuche, ac i adfer y parch sy'n ddyledus iddynt ers dyddiau duon gorthrwm y 19eg ganrif.